

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Bob Davies (Llanfair) yn Ysbyty Llandudno, a hefyd Margaret Jones (Llansannan) gafodd lawdriniaeth y penwythnos diwethaf yn Ysbyty Glan Clwyd yn dilyn ei hanffawd diweddar. Dymunwn wellhâd buan iawn iddi hi ac eraill o'n plith sydd wedi cael amrywiol anafiadau a thriniaethau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Cofiwn hefyd y rhai hynny sydd yn neu wedi gorfod wynebu amryw dreialon yn ddiweddar. Cyflwynwn hwy i ofal Duw a gweddiwn y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu gwarchod a'u cynnal yn eu hangen.
- Estynnwn ein dymuniadau gorau i ddau o aelodau'r Ofalaeth fydd yn priodi y penwythnos nesaf. Mi fydd Aled Jones (Saron) a Jen yn priodi yn Mickle Trafford, ger Caer ddydd Gwener, a Caryl Jones (Llansannan) a Melfyn yn selio eu cyfamod yn Llansannan ddydd Sadwrn. Gweddiwn y bydd y ddau bâr yn cael diwrnod cofiadwy, ac yn profi bendithion lu i'r dyfodol.

Diolchiadau

"Roedd hi'n braf clywed rhai o'r cant a mwy o gynrychiolwyr a ddaeth i'r Gymdeithasfa yn dweud pa mor llawen a hwylus oedd y Sasiwn wedi bod iddynt. Mae'r diolch am hyn i gynifer ohonoch am baratoi mor drylwyr, am baratoi'r bwyd a'i weini mor llawen, am eich haelioni hefo'r ddarpariaeth llety a bwyd, ac am ddiogelu fod y capel a holl gylch y capel yn edrych ar ei orau. Diolch i bawb hefyd am eu gwasanaeth yn ystod yr eisteddiadau wrth groesawu, wrth arwain y defosiwn, dosbarthu'r cymun, wrth reoli'r system sain a chyfeilio. Roedd yn braf cael croesawu cyfeillion i'r te croeso hyfryd a chlywed am y cydweithio hapus sydd rhyngom. Diolch i bawb felly – rwy'n falch iawn ohonoch ac yn ddiolchgar iawn am i ni arddangos gyda'n gilydd yr ysbryd yna o gydweithio yn enw, ac er mwyn ein Harglwydd Iesu."

Anurin

I ddod

- **UNDEB ATHROFA'R BALA** – Cynhelir y Gynhadledd Flynyddol yn Seilo, Llandudno dydd Mawrth, Mai 13eg am 10.00. Y siaradwr fydd y Parch. Ddr. Noel Davies, Abertawe. Croeso i bawb.
- **DIWRNOD DYNION** yn y Bala ar Mehefin 7fed. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: colegybala@ebcpcw.org.uk / 01678 520565.
- **PENWYTHNOS MERCHED** yn y Bala ar Mehefin 13eg-14eg. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru (*manyllion uchod*).

Darlleniad Wythnos Nesaf

1 Timotheus 1:12-17 (BCND tud.229 / BCN: tud.210)

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 11^{eg} Mai 2014

Darlleniad y Dydd

Diarhebion 22:1-6

(BCND tud.595 / BCN: tud.543)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Croeso cynnes i bawb i'n hoedfaon heddiw. A hithau'n wythnos Cymorth Cristnogol, gweddiwn y bydd yr arian a roddir yn cael ei ddefnyddio er clod i Dduw wrth gynorthwyo'r rhai mwyaf anghenus ar hyd a lled ein byd. Gofynnwn hefyd am fendith yr Arglwydd ar ein haddoliad, ac am eneniad yr Ysbryd ar Rhun Murphy wrth iddo bregethu yn Oedfa'r Fro heno. Diolchwn i Dduw am ei weinidogaeth yn Wrecsam a Phonciau a gweddiwn am fendith arno ef, Gwawr ac Anna fel teulu ac wrth iddynt wasanaethu Duw.

Yn ein darlleniad ar y cyd heddiw, cawn ddoethineb o Lyfr y Diarhebion ddylai wneud i'r Cristion feddwl yn galed am ei flaenoriaethau. Bydd yr hyn sy'n flaenoriaeth i ni yn effeithio'n ddwfn ar y math o fywyd y byddwn yn ei fyw, a'r ffordd y bydd ein bywyd yn edrych i bobl eraill. Yn amlwg, bydd bywyd yr hwn sydd â'i fryd ar hamddena yn edrych yn dra gwahanol i'r un sydd yn rhoi gwaith caled yn flaenoriaeth ar ei fywyd. Yn y darn dan sylw o Diarhebion 22, mae doethineb a pherthynas iach gyda Duw yn cael eu rhoi o flaen cyfoeth a ffolineb yr anystyriol. Cofiwn i Iesu hefyd ddweud wrth ei ddisgyblion:

'Beth ydy'r pwynt o gael popeth sydd gan y byd i'w gynnig, a cholli'r enaid? Oes unrhyw beth sy'n fwy gwerthfawr na'r enaid?' (Mathew 16:26 Beibl.net)

Beth felly yw'r flaenoriaeth i'r Cristion? Nid pethau'r byd, ond yr Un sydd wedi creu'r byd, ac wedi'n hachub ni trwy farw ar y groes! Wrth i ni ddod i adnabod Iesu drosom ein hunain a sylweddoli ein bod wedi ein cymodi â Duw trwy ffydd ynddo Ef, gwelwn yn glir fod cymaint mwy i'w mwynhau na phethau'r byd yn unig. Yn aml, mae'r byd yn ceisio ein perswadio fod eiddo ac arian yn siŵr o'n gwneud yn hapus – dyna yw awgrym cynnil y rhan fwyaf o hysbysebion, ond mae gwir lawenydd ond i'w gael yn Iesu Grist. Dyna arweiniodd Ann Griffiths i fynegi gydag arddeliad:

Rhosyn Saron yw ei enw,
gwyn a gwridog, teg o bryd;
ar ddeng mil y mae'n rhagori
o wrthrychau penna'r byd.

Wrth i ni addoli heddiw, plygwn o flaen yr Arglwydd, gan ymbil ar iddo ddangos ei ogoniant a'i ras i ni trwy Iesu Grist mewn ffordd bersonol – ffordd fydd yn llwyr drawsnewid ein blaenoriaethau a'n bywyd am byth.

Rhodri

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • **Oedfa Arbennig i'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd y Parch. Rhun Murphy yn pregethu.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- Mawrth
lau • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
• **Cyfarfod Plant yn Llansannan** am 3.15 (yr olaf y tymor hwn).
• **Cwrs Blasu i arwain Cwrs Rhianta** yng Ngholeg y Bala rhwng 9.30 a 4.30. Gobeithio eich bod wedi cael blas yn darllen yn Adroddiad Blynyddol y Fro 2013 (t.14) am y Cwrs Rhianta gafwyd yn Llansannan y llynedd. Os oes unrhyw un ohonoch â diddordeb i arwain cwrs o'r fath, plis cysylltwch â Rhodri neu Mair fel y gallwn sicrhau bod o leiaf un o'r Ofalaeth yn mynychu'r diwrnod arbennig hwn. Arsylwi yn unig fydddech chi y tro hwn – fe ddaw cyfle eto (os bydd gennych ddiddordeb) i gael hyfforddiant llawn. Mae'r adnoddau bellach wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg â'r cynnwys yn ardderchog. Beth amdani?
- Gwener • **Cyfarfod Plant yn Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30 (yr olaf y tymor hwn).
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd cyfle i groesawu cyfeillion Eglwys Sinan i'r Gwasanaeth Cymorth Cristnogol dwyieithog a gynhelir yng Nghapel Cefn Meiriadog am 10.30 a bydd cinio cynnil i ddilyn (£5 i oedolion) gyda'r elw tuag at Gymorth Cristnogol. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 a bydd Aneurin yn arwain oedfa Cymorth Cristnogol yno am 2.00.
- Mawrth Cyfle am ginio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Cynhelir Oedfa Cymorth Cristnogol Undebol yn yr Eglwys am 11.00. Ni fydd Ysgol Sul heddiw.
- lau Ni fydd Cinio'r Jangl yr wythnos hon.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreded. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn cael ei gynnal yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Cynhelir Sasiwn y Plant yng Nghapel Henllan am 2.00 yng nghwmni Nia Wyn Jones, Hendrerwydd.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym MHENIEL am 2.00 (sylwch ar y newid lleoliad). Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00, ond oherwydd y gwaith peintio, NI FYDD Ysgol Sul yn Saron.
- Sul nesaf Cynhelir Sasiwn y Plant yng Nghapel Henllan am 2.00 yng nghwmni Nia Wyn Jones, Hendrerwydd.

Henllan a Groes

- Sul yma Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Groes am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a bydd Gwasanaeth Cymorth Cristnogol Undebol yn y capel am 2.00 gyda Mr Peter Smith yn pregethu. Bydd paned i ddilyn.
- Sul nesaf Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00 a bydd Sasiwn y Plant yn cael ei gynnal yn Henllan am 2.00 yng nghwmni Nia Wyn Jones, Hendrerwydd.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol Undebol i'r teulu dan ofal Aneurin yng Nghapel Llanefydd am 10.00. Bydd cyfle i brynu nwyddau Masnach Deg ar ddiwedd y gwasanaeth.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghewn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 10.45. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yno am 10.45.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.